Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

6 Rhagfyr 2024

Annwyl rieni a gwarcheidwaid,

Wrth i ni nesau at ddiwedd tymor a dathlu Gŵyl y Geni, hoffwn ddiolch i chi yn ddiffuant am eich cefnogaeth a chydweithrediad parod i waith yr ysgol dros y misoedd diwethaf. Bu'n dymor prysur iawn unwaith eto wrth i ni fel staff gefnogi pobl ifainc yn eu dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial llawn. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r staff am gynnig yr holl weithgareddau dysgu anffurfiol dros y tymor, yn cynnwys ymweliad â Dubai ac Abu Dhabi a'r sioe ysgol fythgofiadfwy *Nôl i'r 80au*. Cafwyd dechreuad gwych i ben blwydd yr ysgol yn 40 mlwydd oed! Yn ychwanegol, cyn diwedd y tymor, bydd nifer o ddisgyblion a staff yn canu'r oratorio Nadolig *Teilwng yw'r Oen* yn Neuadd y Brangwyn i godi arian i Eisteddfod yr Urdd Dur a Mor 2025 ac yn agos i gant o ddisgyblion a staff yn mynd ar daith sgïo i Awstria. Dymunaf brofiadau gwych i bawb!

Diwrnod Gwisg Nadolig

Fe fydd Dydd Mercher 11 Rhagfyr yn Ysgol Gyfun Gŵyr yn Ddiwrnod Gwisg Nadolig lle anogir disgyblion i wisgo naill ai siwmper Nadolig neu i wisgo mewn modd Nadoligaidd. Gwneir hyn er mwyn codi arian i elusen Cronfa Achub y Plant a gofynnir am gyfraniad o £1. Mae croeso hefyd i ddisgyblion wisgo eu siwmperi/gwisg nadoligaidd ar ddiwrnod ola'r tymor.

Cinio Nadolig

Gweinir Cinio Nadolig yr ysgol yn ffreutur yr ysgol ar Ddydd Mercher, 18 Rhagfyr. Ni werthir bwyd adeg egwyl ar y diwrnod hwnnw.

Diwedd Tymor

Hoffwn gyfeirio eich sylw at y ffaith, ar Ddydd Gwener 20 Rhagfyr, ar ôl i'r disgyblion dderbyn cinio, fe fydd yr ysgol yn cau yn gynnar gyda'r bysiau yn ymadael am 12.45pm.

Yn ogystal, ar ddiwedd y tymor, ffarweliwn gyda Katie Saunders a fu'n addysgu Dyniaethau, a Saesneg yn ddiweddar, yn ystod absenoldebau hir dymor staff parhaol. Hoffwn ddiolch iddi yn ddiffuant am ei gwasanaeth ardderchog i'r ysgol a phob llwyddiant a hapusrwydd yn ei hysgol newydd.

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
Challenge Award nace 2015–2025
QS
SportsMarc NPFA
360safe Cymru Cynnydd i Ddiogelwch Ar-lein

Tymor Nesaf

Fe fydd Tymor y Pasg 2025 i bob dysgwr yn cychwyn ar Ddydd Llun, 6 Ionawr ac edrychwn ymlaen at eu croesawu yn ôl i dir yr ysgol ar y diwrnod hwnnw wedi pythefnos o wyliau haeddiannol.

Cyn gorffen, yn amlwg hoffwn ddymuno i chi a'ch teuluoedd Nadolig llawen iawn a blwyddyn newydd dda.

Yn gywir,

J. Connick

Pennaeth

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk